Senedd Cymru
**Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru**

# Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach:

## Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU

Mawrth 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCovid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCovid@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru**

# Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach:

Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU

Mawrth 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Mai 2023. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCovid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cyd-gadeirydd:**
**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Cyd-gadeirydd:**
**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


Rhagair y Cyd-gadeiryddion ..... 5

Argymhelliad ..... 6

1. Cyflwyniad ..... 8

Dadansoddiad o fylchau gan Brifysgol Nottingham Trent ..... 9

Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ..... 10

Ymgynghoriad cyhoeddus ..... 10

Ymateb Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol ..... 11

Barn y Pwyllgor ..... 11

Amserlen gwaith y Pwyllgor i nodi unrhyw fylchau ..... 13

2. Ystyried bylchau posibl ..... 14

Effeithiolrwydd Strwythurau Gwytnwch ..... 14

Atebolrwydd y Llywodraeth a gwneud penderfyniadau ..... 16

Rhannu data a chyfathrebu ..... 17

Ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned: pwysigrwydd cyd-destun a gwybodaeth Leol ..... 18

Heriau gweithredu: adnoddau ac eglurder ..... 20

Barn y Pwyllgor ..... 21

Atodiad 1: Crynodeb o'r materion allweddol sydd wedi'u mapio i Argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid y DU ..... 24

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 28

Gwybodaeth ychwanegol ..... 28


# Rhagair y Cyd-gadeiryddion

Cafodd Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru ei sefydlu ym mis Mai 2023, a rhoddwyd cylch gorchwyl penodol iawn iddo, sef i edrych ar yr adroddiadau ym mhob cam o Ymchwiliad COVID-19 y DU, a chynnig unrhyw fylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach.

Cyhoeddwyd adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU ar wytnwch a pharodrwydd y DU ym mis Gorffennaf 2024. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill, ei hymateb i'r adroddiad hwn.

Er mwyn nodi unrhyw fylchau posibl sy'n deillio o adroddiad Modiwl 1, rydym wedi cynnal strategaeth ymgysylltu a chasglu tystiolaeth gynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad dadansoddiad o fylchau gan arbenigwyr argyfyngau sifil posibl o Brifysgol Nottingham Trent, ymgynghoriad cyhoeddus a digwyddiad i randdeiliaid, yn ogystal ag ystyried yr ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid y DU. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith hyd yn hyn.

Mae'r mewnwelediadau a'r profiadau a rannwyd gan randdeiliaid ac unigolion allweddol wedi bod yn amhrisiadwy o ran nodi bylchau y mae'r Pwyllgor yn credu bod angen eu harchwilio ymhellach. Mae ein hadroddiad yn nodi ein casgliadau ac yn tynnu sylw at feysydd yr ydym yn credu sydd angen ymchwilio iddynt ymhellach. Bydd y bylchau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Senedd mewn cynnig i'w ystyried ar 2 Ebrill.




**Joyce Watson** **Tom Giffard**

Cyd-gadeiryddion, Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19

# Argymhelliad

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig i'r Senedd, y dylai'r bylchau a ganlyn sydd wedi'u nodi ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig Covid-19, fod yn destun archwiliad pellach gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru:

a. adolygu’r model gwytnwch a pharodrwydd mwyaf effeithiol i Gymru;

b. dysgu’n effeithiol gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a’r rhai sydd â diddordeb arbennig mewn grym gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl yng Nghymru ar sut y gellir egluro rolau a chyfrifoldebau yn well a gwella atebolrwydd;

c. adolygu'r ffyrdd y cafwyd mynediad at ddata a sut y rhannwyd data yng Nghymru yn fertigol ac yn llorweddol yn ystod argyfyngau.

d. ystyried effeithiolrwydd eglurder, amseroldeb, cydgysylltiad, ac integreiddio cyfleu polisi a chanllawiau sy’n ymwneud â’r negeseuon cyhoeddus am y pandemig a sut y gellir gwella hyn yn y dyfodol.

e. adolygu'r angen i egluro'n well y rhyngweithio rhwng argyfyngau sifil posibl sy’n croesi ffiniau a lle mae cyfrifoldebau’n cael eu rhannu, yn aneglur neu'n gymhleth;

f. adolygu sut y gellir rhannu arferion a phrosesau gwytnwch blaenllaw ar draws sefydliadau perthnasol yng Nghymru;

g. adolygu sut y gellid ymgorffori’n well anghydraddoldebau cymdeithasol yng nghyd-destun Cymru yn y prosesau a'r strwythurau parodrwydd a gwytnwch;

h. adolygu manteision dull gweithredu sy’n benodol i Gymru sy’n ymgorffori’r hyn a ddysgwyd gan gymunedau ac arbenigwyr gwytnwch, er mwyn cryfhau systemau a strwythurau gwytnwch Cymru;

i. ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i Gymru fynd ati i weithredu argymhellion adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, gan gynnwys:

i. a oes adnoddau digonol i weithredu argymhellion megis ymarferion ymateb i argyfwng a phandemig;

ii. sut y caiff y broses o weithredu'r argymhellion ei monitro'n effeithiol yng Nghymru.......... Tudalen 23

# 1. Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru (y Pwyllgor) ar 16 Mai 2023[1].

2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor fel y'i nodir o dan Reol Sefydlog 16.5 yw:

> *"ystyried yr adroddiadau yn y camau unigol o Ymchwiliad Covid-19 y DU ac yng nghyd-destun cylch gorchwyl ac amserlen Ymchwiliad Covid-19 y DU, cynnig i'r Senedd, drwy gynnig, y dylai unrhyw fylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig Covid-19 gael eu harchwilio ymhellach.*
>
> *cynnal adolygiad o'r meysydd hynny a nodwyd ar gyfer archwilio pellach (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)*
>
> *Cyhoeddi adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol â hynny."*

3. Penododd y Pwyllgor Dr Simon Williams[2], ymgynghorydd annibynnol ym maes iechyd y cyhoedd, fel ei Gynghorydd Arbenigol i helpu i nodi bylchau posibl ar draws cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor.

4. Cyhoeddodd Ymchwiliad Covid-19 y DU ei adroddiad cyntaf, sef "Modiwl 1: Gwytnwch a pharodrwydd y Deyrnas Unedig" (adroddiad Modiwl 1) ar 18 Gorffennaf 2024[3], a wnaeth 10 argymhelliad i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

5. Ar 4 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o ymgysylltu a chasglu tystiolaeth ar gyfer ystyried adroddiad Modiwl 1, gan gynnwys:

- comisiynu adroddiad dadansoddiad o fylchau gan academyddion sy'n arbenigo mewn argyfyngau sifil posibl ym Mhrifysgol Nottingham Trent[4];

---

[1] Cyfarfod Llawn y Senedd, Cofnod y Trafodion, 16 Mai 2023
[2] Dr Simon Williams, Linkedin (Saesneg yn unig)
[3] Ymchwiliad Covid-19 y DU: Modiwl 1 Gwytnwch a pharodrwydd y Deyrnas Unedig
[4] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19

- digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid[5]; ac
- ymgynghoriad cyhoeddus[6].

**6.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb[7] i adroddiad Modiwl 1 ar 16 Ionawr 2025, a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2025.[8]

**7.** Mae crynodeb o'r materion allweddol sydd wedi'u mapio i Argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid y DU wedi'i atodi yn Atodiad 1.

## Dadansoddiad o fylchau gan Brifysgol Nottingham Trent

**8.** Ar 4 Tachwedd 2024, comisiynodd y Pwyllgor Brifysgol Nottingham Trent i gymharu adroddiad Modiwl 1 ag Adolygiad Gweithredol Interim Cymru[9] i gefnogi dealltwriaeth y Pwyllgor o systemau a strwythurau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

**9.** Cafodd academyddion o Brifysgol Nottingham Trent eu penodi yn dilyn galwad cynhwysfawr am fynegiannau o ddiddordeb gan arbenigwyr academaidd sy'n arbenigo mewn parodrwydd ar gyfer argyfyngau i gynorthwyo'r Pwyllgor â'i waith ar Fodiwl 1 Ymchwiliad Covid y DU. Dosbarthwyd yr alwad i sefydliadau academaidd yng nghylchlythyr Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd. Mae'r cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu i dros 700 o bobl mewn prifysgolion ledled y DU.

**10.** Paratowyd y Dadansoddiad o'r Bylchau gan yr Athro Rowena Hill, Athro Seicoleg yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a Richard Pickford, rheolwr Cyfnewidfa Ddinesig Nottingham. Fe'i cyhoeddwyd ar 7 Mawrth 2025 ac mae'n gwneud 11 o argymhellion. Cafodd y Dadansoddiad o'r Bylchau ei rannu'n 7 Maes Ffocws:

1. Effeithiolrwydd strwythurau argyfyngau sifil posibl Cymru a'r 'system gyfan';
2. Dull cydgysylltiedig o wneud penderfyniadau;

[5] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[6] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, ymgynghoriad
[7] Ymchwiliad COVID-19 y DU Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1
[8] Cyfarfod Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru, 27 Ionawr 2025 (Saesneg yn unig)
[9] Adolygiad Gweithredol Interim Pandemig Cymru Covid-19, Gorffennaf 2020 (Saesneg yn unig)

3. Llywodraeth Cymru;
4. Cydlyniant polisi a strategaeth;
5. Gwaith amlasiantaethol;
6. Dysgu, rhannu a pharatoi; a
7. chymunedau.[10]

## Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**11.** Ar 2 Rhagfyr 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a chlywodd safbwyntiau gan randdeiliaid allweddol, ar draws ystod o sectorau. Cyhoeddwyd adroddiad cryno[11] o'r digwyddiad, a nododd:

> *"Roedd consensws cyffredinol gan y cyfranogwyr bod yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU yn gynhwysfawr ac yn briodol, ond roedd pryderon ynghylch diffyg eglurder a phenodoldeb i Gymru. Nodwyd bod yr argymhellion yn rhai 'un ateb sy'n addas i bawb' sy'n cael eu cyfeirio ar y cyd i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ymateb iddynt, a fydd yn heriol. Nid oes camau penodol i Lywodraeth Cymru ac mae'r elfen Gymreig wedi'i cholli.*[12]

## Ymgynghoriad cyhoeddus

**12.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 8 Tachwedd 2024 a 3 Ionawr 2025, a gwahoddodd farn y cyhoedd ynghylch a oedd adroddiad Modiwl 1 yn cofnodi camau blaenoriaeth a manylion digonol ar barodrwydd yng Nghymru. Hefyd, gwahoddodd farn ynghylch a oes unrhyw fylchau sy'n golygu bod angen i'r Pwyllgor fynd ati i gymryd tystiolaeth bellach, pa adnoddau sydd eu hangen a sut y dylid monitro ac adrodd ar gynnydd.[13] Cafodd y Pwyllgor 11 o ymatebion.[14]

---

[10] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[11] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[12] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[13] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru: Llythyr Ymgynghori
[14] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad

### Ymateb Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol

**13.** Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 ar 27 Ionawr 2025. Fel rhan o'i ystyriaeth o unrhyw fylchau posibl, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog yn gofyn am gopi o Fframwaith Cymru Gydnerth drafft Cymru, a gofynnodd am esboniad ynghylch pam na fyddai datganiad arfaethedig i'r Senedd ar barodrwydd, fel yr amlinellwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru, yn cael ei gyflwyno tan aeaf 2026.[15]

**14.** Yn ogystal, ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at Ymchwiliad Covid-19 y DU i ofyn a fyddai anghydraddoldebau iechyd ac effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn cael sylw fel themâu trosfwaol ar draws yr holl fodiwlau, neu a fyddent yn cael sylw mewn Modiwlau penodol; a phryd y byddai canlyniadau'r ymarfer gwrando yn cael eu rhannu.[16]

**15.** Cafodd y Pwyllgor ymatebion gan Ymchwiliad Covid-19 y DU[17] a'r Prif Weinidog[18].

## Barn y Pwyllgor

**16.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dystiolaeth a gasglwyd yn ein hymdrechion i nodi bylchau ym mharodrwydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig COVID-19 y dylid eu harchwilio ymhellach. Mae'r Dadansoddiad o'r Bylchau gan Brifysgol Nottingham Trent yn tynnu sylw at 20 o fylchau allweddol, wedi'u categoreiddio'n saith maes ffocws. Daeth y Digwyddiad i Randdeiliaid i'r casgliad, er bod yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Modiwl 1 "yn gynhwysfawr ac yn briodol", cafwyd pryderon ynghylch diffyg eglurder a phenodoldeb i Gymru. Yn ogystal, roedd 10 allan o 11 o'r cyflwyniadau i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn nodi bylchau yn adroddiad Modiwl 1 sy'n gofyn am dystiolaeth bellach gan y Pwyllgor.

**17.** O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn credu bod y dystiolaeth yn awgrymu bod nifer o fylchau yn bodoli. Mae ein hadroddiad yn cyfosod y dystiolaeth a ddaeth i law, gan gyflwyno materion a themâu allweddol a nodwyd. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi crynhoi'r bylchau hyn mewn perthynas â deg argymhelliad adroddiad

[15] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru: Llythyr at y Prif Weinidog, 31 Ionawr 2025
[16] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru: Llythyr at Gadeirydd Ymchwiliad Covid-19 y DU, 30 Ionawr 2025
[17] Ymateb gan Ymchwiliad Covid-19 y DU, 25 Chwefror 2025 (Saesneg yn unig)
[18] Ymateb gan y Prif Weinidog, 10 Mawrth 2025

Modiwl 1 Ymchwiliad Covid y DU ac wedi ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.

## Amserlen gwaith y Pwyllgor i nodi unrhyw fylchau

### 8 TACHWEDD 2024 - 3 IONAWR 2025

Ymgynghoriad cyhoeddus – i nodi unrhyw fylchau fel y rhagnodir o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, sy'n deillio o adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU

### 2 RHAGFYR 2024

Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried unrhyw fylchau sy'n deillio o adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU

### 16 IONAWR 2025

Ymateb Llywodraeth y DU ac ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU

### 20 IONAWR 2025

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r dadansoddiad drafft o'r bylchau gan Brifysgol Nottingham Trent

### 18 CHWEFROR 2025

Cyhoeddwyd adroddiad dadansoddi bylchau gan arbenigwyr mewn paratoadau sifil a chynllunio ar gyfer argyfwng o Brifysgol Nottingham Trent

### 17 CHWEFROR 2025

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gasglwyd, i nodi unrhyw fylchau ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig Covid-19 y dylid eu harchwilio ymhellach.

### 25 MAWRTH 2025

Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad yn amlinellu'r bylchau i'w cynnig i'r Senedd drwy gynnig.

### 2 EBRILL 2025

Dadl yn y Cyfarfod Llawn – Y Senedd i drafod y cynnig sy'n amlinellu'r bylchau y dylid eu harchwilio ymhellach.

# 2. Ystyried bylchau posibl

19. Er mwyn nodi unrhyw fylchau posibl, ystyriodd y Pwyllgor yr egwyddorion allweddol a ganlyn:

- **Cyfathrebu:** yr angen am gyfathrebu a thryloywder cliriach, gan gynnwys ynghylch polisi, adnoddau a data - rhwng gwahanol lefelau (h.y. o'r brig i'r gwaelod) ac ar draws yr un lefel (ochr i ochr).
- **Cydgysylltu:** yr angen i gyfathrebu'n gliriach ynghylch rolau a chyfrifoldebau o ran argyfyngau sifil, dylai pawb wybod pwy sy'n gwneud beth a phryd.
- **Cydlyniant:** gweithio trawsffiniol mwy effeithiol - gan sicrhau bod strwythurau gwytnwch Cymru yn gydlynol ac yn gyson â strwythurau a chymheiriaid y DU. Mae angen cydlyniant ar draws Fforymau Lleol Cymru Gydnerth hefyd.
- **Cymunedau:** mae angen ymgysylltu'n well â chymunedau a ffurfiau amgen o arbenigedd a phrofiad byw mewn cynllunio gwytnwch. Mae strategaethau ar gyfer cyfathrebu clir gyda chymunedau yn allweddol.

## Effeithiolrwydd Strwythurau Gwytnwch

20. Roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn trafod nifer o fylchau yn effeithiolrwydd strwythurau gwytnwch yng Nghymru, gan awgrymu na roddodd Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU drosolwg cynhwysfawr o'r hyn y mae strwythurau gwytnwch Cymru yn ei gwmpasu.

21. Er enghraifft, dadleuodd y Dadansoddiad o'r Bylchau fod angen "edrych yn fanylach ar gyd-destun Cymru", gan ddod i'r casgliad y "dylai'r Pwyllgor ystyried adolygiad o'r model [gwytnwch a pharodrwydd] mwyaf effeithiol ar gyfer Cymru".[19]

22. Awgrymodd y Dadansoddiad o'r Bylchau y byddai adolygiad mwy treiddgar a phenodol o effeithiolrwydd y Cynllun Ymateb Cymru Gyfan[20], a grwpiau nad oeddent yn cael digon o sylw yn adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad (e.e. Canolfan

[19] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[20] Cynllun Ymateb Cymru Gyfan (Saesneg yn unig)

Cydgysylltu Argyfyngau Cymru a Grŵp Adfer Cymru) yn helpu i lywio risg a pharodrwydd system gyfan yng Nghymru yn y dyfodol.[21]

**23.** Yn yr un modd, yn y Digwyddiad i Randdeiliaid, roedd consensws cyffredinol gan y cyfranogwyr fod yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Modiwl 1 yn gynhwysfawr ac yn briodol, ond roedd pryderon ynghylch diffyg eglurder a phenodoldeb i Gymru. Teimlwyd nad oedd adroddiad Modiwl 1 yn trafod nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn ystod ac ar ôl y pandemig a oedd yn craffu ar barodrwydd Llywodraeth Cymru.[22]

**24.** Er enghraifft, awgrymodd y Dadansoddiad o'r Bylchau adolygiad mwy treiddgar o effeithiolrwydd yr ymateb integredig ar draws y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth[23], effeithiolrwydd y cysylltedd a'r adrodd rhwng strwythurau iechyd a strwythurau gwytnwch ehangach yng Nghymru. Canfu hefyd "nad oedd digon o bobl â'r sgiliau a'r arbenigedd i lenwi'r rolau hynny yn y strwythurau cydnerthedd".[24]

**25.** Nododd Adroddiad Cryno y Digwyddiad i Randdeiliaid hefyd nad yw argymhellion Adroddiad Modiwl 1 yn rhoi manylion neu gyfarwyddyd digonol i'r Fforymau a bod angen mwy o gysondeb ac eglurder yn eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn strwythurau ehangach Cymru a'r DU.[25] Nodwyd hefyd fod angen mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau gwytnwch gan rai cyflwyniadau i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Er enghraifft, nododd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru y canlynol:

> *"From an Emergency Preparedness Resilience and Response (EPRR) point of view, knowing what this team will be responsible for and how it will influence emergency planning within Wales is critical to organisational and Local Resilience Forum (LRF) emergency planning."*[26]

**26.** Mae argymhelliad 9 yn adroddiad Modiwl 1 'Defnydd rheolaidd o dimau coch', yn nodi fel a ganlyn:

---

[21] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[22] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[23] Llywodraeth Cymru, Cymru Gydnerth
[24] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[25] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[26] Ymateb i'r ymgynghoriad: Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Saesneg yn unig)

*Dylai llywodraethau'r DU, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ill dau gyflwyno'r defnydd o dimau coch yn y Gwasanaeth Sifil i graffu ar yr egwyddorion, y dystiolaeth, y polisïau a'r cyngor sy'n ymwneud â pharodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil system gyfan a'u gallu i wrthsefyll. Dylid dod â'r timau coch i mewn o'r tu allan i'r llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil."*[27]

**27.** Mae adroddiad Modiwl 1 yn esbonio bod y "timau coch yn grwpiau o bobl y tu allan i'r strwythurau cynghori a gwneud penderfyniadau dan sylw wrth ddatblygu polisïau, strategaethau a chynlluniau."[28]

**28.** Nododd Adroddiad Cryno y Digwyddiad i Randdeiliaid hefyd sut mae angen mwy o eglurder ar gylch gorchwyl y 'timau coch', gan gynnwys yr adnoddau y byddai eu hangen.[29]

**29.** Pwynt allweddol yn y dystiolaeth drwyddi draw oedd y diffyg ffocws ar "ryngweithiad argyfyngau sifil posibl ar draws ffiniau a lle roedd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu, yn aneglur neu'n gymhleth".[30]

## Atebolrwydd y Llywodraeth a gwneud penderfyniadau

**30.** Un mater allweddol o'r dystiolaeth yw atebolrwydd Llywodraeth Cymru wrth reoli'r pandemig ac effeithiolrwydd strwythurau gwneud penderfyniadau. Daeth y Dadansoddiad o'r Bylchau i'r casgliad nad oedd adroddiad Modiwl 1 yn rhoi cyfrif digonol o effeithiolrwydd y strwythurau y tu hwnt i/o dan lefel Llywodraeth y DU. Roedd y Dadansoddiad o'r Bylchau hefyd o'r farn y dylid adolygu faint o benderfyniadau a wnaed, a'r broses o'u cofnodi, er mwyn deall sut y gellir olrhain dysgu ac atebolrwydd drwy reoli risgiau system gyfan yn y dyfodol.[31]

**31.** Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod angen mwy o atebolrwydd o ran sut i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Modiwl 1. Awgrymodd Grŵp Arsylwi'r Pwyllgor Covid fod bwlch cynhenid yn gysylltiedig â hwy hyd nes y rhoddir eglurder ynghylch pwy fydd yn atebol am weithredu pob argymhelliad.[32]

[27] Ymchwiliad Covid-19 y DU: Modiwl 1 Gwytnwch a pharodrwydd y Deyrnas Unedig
[28] Ymchwiliad Covid-19 y DU: Modiwl 1 Gwytnwch a pharodrwydd y Deyrnas Unedig
[29] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[30] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[31] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[32] Ymateb i'r Ymgynghoriad: Grŵp Arsylwi'r Pwyllgor Covid (Saesneg yn unig)

32. Yn yr un modd, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o'r farn bod angen atebolrwydd a thryloywder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth a phryd.[33] Nododd Adroddiad Cryno y Digwyddiad i Randdeiliaid nad oedd adroddiad Modiwl 1 yn trafod yn glir a yw Adolygiad Llywodraethu Llywodraeth Cymru wedi'i ystyried yn llawn.[34]

## Rhannu data a chyfathrebu

33. Mater allweddol arall a nodwyd yn y dystiolaeth drwyddi draw oedd yr angen i fynd i'r afael â bylchau yn y modd mae data a phrofiad yn cael eu rhannu a'u cyfathrebu ar draws sefydliadau a strwythurau cadernid, yng Nghymru a ledled y DU.

34. Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn awgrymu y gallai tryloywder fod wedi bod yn well, gan ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol a'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth amserol. Er enghraifft, nodwyd bod angen adrodd a rhannu data'n well rhwng Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r pedair gwlad ddatganoledig. Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr y canlynol:

> *"Heb os, mae angen gwella systemau ar gyfer casglu a rhannu data (Argymhelliad 4). Y nod ddylai fod casglu a lledaenu gwybodaeth hanfodol cyn pandemigau neu argyfyngau posibl. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer gwell rheolaeth argyfwng yn enwedig mewn digwyddiadau llanw cynyddol gyda'r gallu i addasu i ddigwyddiadau sy'n newid yn gyflym a chynorthwyo ymchwil. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth fod yn amserol."*[35]

35. I'r perwyl hwn, dadleuodd y Dadansoddiad o'r Bylchau nad oedd digon o drafod yn adroddiad Modiwl 1, nac yn Ymateb Llywodraeth Cymru, ar sut y bydd y gallu i rannu a dadansoddi data yn cael ei rannu y tu hwnt i lefel gweinidogol ac i lefelau is a mwy lleol, gan gynnwys i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.[36]

36. Trafododd cyfranogwyr yn y Digwyddiad i Randdeiliaid sut y teimlent fod Lloegr ar y blaen o ran cyrff sector cyhoeddus yn casglu a rhannu data (gan ei fod

[33] Ymateb i'r ymgynghoriad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig)
[34] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[35] Ymateb i'r Ymgynghoriad: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
[36] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19

yn aneglur iddynt sut mae GIG Cymru yn defnyddio ac yn rhannu data â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus).[37]

**37.** Hefyd, tynnodd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus sylw at fylchau mewn rhannu data a chyfathrebu. Er enghraifft, roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn cytuno â'r angen i wella systemau casglu a rhannu data cyn unrhyw bandemig yn y dyfodol, a chomisiynu ystod ehangach o brosiectau ymchwil i helpu i wella dulliau rhannu data a gwella parodrwydd at y dyfodol.[38]

**38.** Yn ôl Grŵp Arsylwi'r Pwyllgor Covid, roedd yn bwysig nodi sut olwg fyddai ar 'ddata gwell' mewn gwirionedd a pha mor hygyrch a chymaradwy fydd gwybodaeth o'r fath ar draws pedair system iechyd wahanol y DU.[39]

**39.** Roedd cyfathrebu clir yn thema allweddol arall yn y dystiolaeth drwyddi draw. Er enghraifft, awgrymodd y Dadansoddiad o'r Bylchau y gallai'r Pwyllgor adolygu'n fwy trylwyr effeithiolrwydd cyfathrebiadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys edrych ar sut neu pam y datblygwyd polisïau gwahanol ar yr un dystiolaeth, data a gwybodaeth wyddonol â llywodraethau eraill.[40]

## Ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned: pwysigrwydd cyd-destun a gwybodaeth Leol

**40.** Yn y dystiolaeth drwyddi draw, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyd-destun lleol ac ymgorffori mwy o wybodaeth ac arbenigedd lleol wrth gynllunio parodrwydd a gwytnwch. Yn ystod y Digwyddiad i Randdeiliaid, pwysleisiwyd yr angen am fwy o gyfranogiad ac arbenigedd lleol. Awgrymwyd nad oedd adroddiad Modiwl 1 y DU yn canolbwyntio'n ddigonol ar rôl Fforymau Lleol Cymru Gydnerth wrth gynllunio gwytnwch.[41]

**41.** Dadleuwyd hefyd, wrth weithredu argymhellion adroddiad Modiwl 1, fod angen cyfranogiad lleol mewn unrhyw strwythurau newydd, yn ogystal ag ymwreiddio dulliau cadw cydbwysedd i sicrhau yr ymgynghorir â llais gweithwyr proffesiynol lleol sy'n gweithredu yn y maes gwaith hwn. Dywed Conffederasiwn GIG Cymru:

[37] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[38] Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[39] Ymateb i'r Ymgynghoriad: Grŵp Arsylwi'r Pwyllgor Covid (Saesneg yn unig)
[40] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[41] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025

*"There are gaps in localised preparedness. Our members suggest that it is important to not lose sight that there will be local issues that need addressing and that oversight is not limited to a national scale."*[42]

**42.** I'r perwyl hwn, nododd y Dadansoddiad o'r Bylchau sut yr oedd "y grwpiau cymunedol a'r strwythurau gwirfoddoli wedi'u gwreiddio'n well yng Nghymru ac felly nid yw cyflawniad yr agwedd hon ar yr ymateb wedi'i gynnwys yn adroddiad Modiwl 1". Awgrymodd y byddai gweithredu dysgu o waith cymunedau lleol o fewn ymateb "cymdeithas gyfan" yng Nghymru yn fuddiol.[43]

**43.** Roedd eglurder y cyfathrebu â'r cyhoedd yn fater arall a oedd yn gyffredin yn y dystiolaeth drwyddi draw, gyda'r Dadansoddiad o'r Bylchau yn nodi bod:

*"newidiadau polisi a'r diffyg amser i asiantaethau megis yr heddlu ac awdurdodau lleol lunio negeseuon clir gyda'u timau eu hunain a'r cymunedau roeddent yn eu gwasanaethu …yn golygu bod y negeseuon i'r cyhoedd yn aml yn ddryslyd."* [44]

**44.** I'r perwyl hwn, yn y Digwyddiad i Randdeiliaid, trafododd cyfranogwyr sut yr oedd:

*"cyfathrebu'n heriol, ac roedd cymhlethdodau datganoli weithiau'n ei gwneud yn aneglur o ble roedd gwybodaeth yn dod a sut roedd yn gymwys i Gymru."*[45]

**45.** Awgrymodd y Dadansoddiad o'r Bylchau y gallai'r Pwyllgor adolygu'r canlyniadau a'r atebion posibl yn ystod argyfyngau sy'n deillio o sectorau a rhanddeiliaid nad ydynt yn deall y gwahaniaethau rhwng polisïau a gweithdrefnau ar draws y pedair gwlad gartref, ac mewn perthynas â lefel y DU. Hefyd, tynnwyd sylw at effeithiolrwydd eglurder, amseroldeb, cydgysylltiad ac integreiddio cyfathrebu polisi a chanllawiau sy'n ymwneud â'r negeseuon cyhoeddus am y pandemig.[46]

**46.** Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd ymgorffori 'profiad bywyd' mwy penodol i Gymru. Roedd y ddau ymateb gan unigolion i'r ymgynghoriad yn dadlau bod

---

[42] Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[43] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[44] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[45] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[46] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19

angen clywed mwy o brofiad bywyd Cymru a mwy o wrando arno.[47] Pwysleisiodd tystiolaeth hefyd bwysigrwydd adolygu anghydraddoldebau cymdeithasol a sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys yn fwy llawn mewn prosesau a strwythurau parodrwydd a gwytnwch yn y dyfodol.[48] Ar y cyfan, awgrymwyd bod angen adolygu sut mae strwythurau cadernid yng Nghymru yn cysylltu, yn cydweithio ac yn integreiddio â'r sector cymunedol a gwirfoddol.

## Heriau gweithredu: adnoddau ac eglurder

**47.** Cafodd diffyg adnoddau ei grybwyll ar draws y dystiolaeth. Er enghraifft, dadleuodd cyfranogwyr yn y Digwyddiad i Randdeiliaid nad oedd gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru gymaint o adnoddau â'u cymheiriaid yn Lloegr, felly ystyriwyd bod gweithredu ymarferion ymateb i bandemig rheolaidd ledled y DU yn heriol ar lefel leol. Awgrymwyd bod angen adnoddau digonol i gynnal yr ymarferion, ond hefyd i rannu a gweithredu'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn lleol yn ogystal ag yn genedlaethol yng Nghymru a'r DU.[49]

**48.** Nododd y Dadansoddiad o'r Bylchau nad oedd digon o weithwyr gwytnwch proffesiynol â'r sgiliau a'r arbenigedd i lenwi'r rolau hynny o fewn y strwythurau gwytnwch.[50]

**49.** Cafodd ddiffyg eglurder a manylion ynghylch sut i weithredu'r argymhellion a nodir yn adroddiad Modiwl 1 hefyd ei nodi yn y dystiolaeth amrywiol a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Nododd Adroddiad Cryno y Digwyddiad i Randdeiliaid y canlynol:

> *"Some recommendations (3, 5, 9 and 10 in particular) require more clarity on terminology used and expectations from the Inquiry Board on how these recommendations will be delivered."*[51]

**50.** Nododd ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus hefyd y diffyg eglurder, gan gynnwys amserlenni. Disgrifiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

> *"It is not clear to us what the exact time frames are for implementing these recommendations. Clearly, updating any*

[47] Ymateb i'r Ymgynghoriad: 01 Unigolyn (Saesneg yn unig) a 02 Unigolyn (Saesneg yn unig)
[48] Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[49] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[50] Prifysgol Nottingham Trent, Dadansoddiad o fylchau Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19
[51] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025

*whole systems approach will require significant resources to deliver effectively.”*[52]

**51.** Awgrymodd y cyfranogwyr yn y Digwyddiad i Randdeiliaid ffyrdd o fonitro gweithrediad yr argymhellion, gan gynnwys creu “Comisiynydd Cydnerthedd” neu Bwyllgor y Senedd.[53] Er yr ystyriwyd bod yr argymhellion yn adroddiad Modiwl 1 yn gynhwysfawr a phriodol ar y cyfan[54], mynegwyd pryderon ar draws y dystiolaeth nad oes digon o gyllid, capasiti na'r arbenigedd sydd eu hangen i'w gweithredu.

## Barn y Pwyllgor

**52.** Ar ôl archwilio’r dystiolaeth a ddaeth i law yn ofalus, mae’r Pwyllgor o’r farn bod sawl bwlch yn effeithiolrwydd strwythurau gwytnwch yng Nghymru ac mae’n argymell ymchwilio ymhellach i ystyried y model gwytnwch a pharodrwydd mwyaf effeithiol ar gyfer Cymru. Dylai hyn gynnwys ystyried effeithiolrwydd y Cynllun Ymateb Cymru Gyfan, a sut y gallai grwpiau fel Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru a Grŵp Adfer Cymru gyfrannu at risg a pharodrwydd system gyfan yn y dyfodol yng Nghymru. Yn ogystal, dylai asesu'r ymateb integredig ar draws y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru.

**53.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod y Gwasanaeth Sifil yn defnyddio timau coch i adolygu a chwestiynu’r syniadau, y dystiolaeth, y polisïau, a’r cyngor yn ofalus ynghylch sut i baratoi ar gyfer argyfyngau ar raddfa fawr a’u trin. Mae timau coch yn grwpiau sy'n asesu ac yn herio polisïau a strategaethau yn feirniadol i nodi gwendidau posibl. Er bod Ymchwiliad Covid-19 y DU yn argymell y dylai Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig fabwysiadu arferion tîm coch, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi dull tebyg. Rydym yn cytuno bod angen mwy o eglurder ynghylch eu cylch gorchwyl a'r adnoddau sydd eu hangen. Mae’r Pwyllgor hefyd o’r farn y dylid archwilio y rhyngweithiad rhwng argyfyngau sifil posibl sy’n croesi ffiniau a chyfrifoldebau a rennir ymhellach, gan fod hyn yn parhau i fod yn aneglur.

**54.** Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid ystyried atebolrwydd Llywodraeth Cymru wrth reoli'r pandemig ac effeithiolrwydd strwythurau gwneud penderfyniadau

[52] Ymateb i’r Ymgynghoriad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig)
[53] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025
[54] Adroddiad cryno: Digwyddiad i Randdeiliaid, Ionawr 2025

ymhellach. Dylai hyn gynnwys ceisio eglurder ynghylch pwy sy'n atebol am ddatblygu'r argymhellion yn adroddiad Modiwl 1.

**55.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd cyd-destun lleol ac ymgorffori gwybodaeth ac arbenigedd lleol mewn cynllunio parodrwydd a gwytnwch. Rydym o'r farn bod angen cyfranogiad lleol wrth weithredu argymhellion adroddiad Modiwl 1 gan weithwyr proffesiynol lleol perthnasol sy'n gweithredu yn y meysydd hyn.

**56.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth bod angen adolygu anghydraddoldebau cymdeithasol a'u hymgorffori'n llawn mewn prosesau a strwythurau parodrwydd a gwytnwch yn y dyfodol. Yn ogystal, credwn y dylid ceisio eglurder ynghylch sut mae strwythurau gwytnwch yng Nghymru yn cysylltu, yn cydweithio ac yn integreiddio â'r sector cymunedol a gwirfoddol.

**57.** Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried effeithiolrwydd eglurder, amseroldeb, cydgysylltiad, ac integreiddio cyfleu polisi a chanllawiau sy'n ymwneud â'r negeseuon cyhoeddus am y pandemig a sut y gellir gwella hyn yn y dyfodol.

**58.** Yn ogystal, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ystyried ymhellach a yw lefel yr adnoddau a'r cyllid a ddyrannwyd i weithredu'r argymhellion o adroddiad Modiwl 1 yn ddigonol.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cynnig i'r Senedd, y dylai'r bylchau a ganlyn sydd wedi'u nodi ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig Covid-19, fod yn destun archwiliad pellach gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru:

a) adolygu'r model gwytnwch a pharodrwydd mwyaf effeithiol i Gymru;

b) dysgu'n effeithiol gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r rhai sydd â diddordeb arbennig mewn grym gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl yng Nghymru ar sut y gellir egluro rolau a chyfrifoldebau yn well a gwella atebolrwydd;

c) adolygu'r ffyrdd y cafwyd mynediad at ddata a sut y rhannwyd data yng Nghymru yn fertigol ac yn llorweddol yn ystod argyfyngau.

d) ystyried effeithiolrwydd eglurder, amseroldeb, cydgysylltiad, ac integreiddio cyfleu polisi a chanllawiau sy'n ymwneud â'r negeseuon cyhoeddus am y pandemig a sut y gellir gwella hyn yn y dyfodol.

e) adolygu'r angen i egluro'n well y rhyngweithio rhwng argyfyngau sifil posibl sy'n croesi ffiniau a lle mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu, yn aneglur neu'n gymhleth;

f) adolygu sut y gellir rhannu arferion a phrosesau gwytnwch blaenllaw ar draws sefydliadau perthnasol yng Nghymru;

g) adolygu sut y gellid ymgorffori'n well anghydraddoldebau cymdeithasol yng nghyd-destun Cymru yn y prosesau a'r strwythurau parodrwydd a gwytnwch;

h) adolygu manteision dull gweithredu sy'n benodol i Gymru sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd gan gymunedau ac arbenigwyr gwytnwch, er mwyn cryfhau systemau a strwythurau gwytnwch Cymru;

i) ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i Gymru fynd ati i weithredu argymhellion adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, gan gynnwys:

   i. a oes adnoddau digonol i weithredu argymhellion megis ymarferion ymateb i argyfwng a phandemig;

   ii. sut y caiff y broses o weithredu'r argymhellion ei monitro'n effeithiol yng Nghymru.

# Atodiad 1: Crynodeb o'r materion allweddol sydd wedi'u mapio i Argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid y DU

| Argymhelliad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 | Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru | Crynodeb o'r bylchau a'r materion a nodwyd o dystiolaeth y Pwyllgor |
|---|---|---|
| 1. Lefel Cabinet sengl neu bwyllgor gweinidogol cyfatebol<br>(tudalennau 45-49; Adrannau 2.88-2.98) | Yn cydnabod yr angen i symleiddio strwythurau.<br><br>Mae LlC wedi cychwyn rhaglen Fframwaith Cymru Gydnerth i wella llywodraethu ac egluro rolau o fewn y system parodrwydd am argyfwng<br>(tudalennau 7-10; Adrannau 2.1-2.13) | Mae angen symleiddio cymhlethdod strwythurol a phenderfyniadau aneglur<br><br>Gallai symleiddio a mwy o eglurder o ran parodrwydd a systemau cadernid wella effeithiolrwydd cyffredinol<br>(Adrannau 1.1,1.2, 1.8. 1.9, 1.10, 2.1, 2.2, 2.8, 2.16) |
| 2. Diddymu model adran arweiniol y llywodraeth ar gyfer parodrwydd system gyfan ar gyfer argyfyngau sifil a gwytnwch<br>(tudalennau. 49-52; Adrannau 2.99-2.111) | Ar hyn o bryd, mae LlC yn arddel egwyddor sybsidiaredd; mae'n cydnabod, os bydd argyfwng system gyfan hirfaith, y gallai fod yn ofynnol defnyddiol model gwahanol i'r dull adran llywodraeth arweiniol.<br><br>(tudalennau 11-12; Adrannau 2.14-2.16). | Angen archwilio ymhellach sut i ddysgu'n effeithiol gan weithwyr cadernid proffesiynol a phenderfynwyr argyfyngau sifil posibl yng Nghymru<br>(Adrannau 1.7, 1.8, 2.1, 2.3, 2.4, 2.6) |

| Argymhelliad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 | Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru | Crynodeb o'r bylchau a'r materion a nodwyd o dystiolaeth y Pwyllgor |
|---|---|---|
| 3. Sefydlu dull newydd o asesu risg<br>(tudalennau 74-75; adrannau 3.69-3.71) | Mae LlC yn datblygu Cofrestr Risgiau Genedlaethol i Gymru, gan ategu'r asesiad ledled y DU, i fynd i'r afael â risgiau rhanbarthol penodol.<br>(tudalennau 13-15 Adrannau 3.1-3.8) | Angen sicrhau ffocws ar risgiau ar sawl lefel ac yng nghyd-destun Cymru - ar lefel Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ac fel ymateb Cymru gyfan i sicrhau bod risgiau'n cael eu deall ac y paratoir ar eu cyfer.<br>(Adrannau 1.3, 2.10). |
| 4. Strategaeth argyfyngau sifil posibl system gyfan newydd i'r DU gyfan<br>(tudalennau 94-95, Adrannau 4.65-4.67) | Mae LlC yn cefnogi creu strategaeth y DU gyfan ac yn pwysleisio'r angen iddi barchu cyfrifoldebau datganoledig, gan ystyried anghenion a strwythurau unigryw Cymru.<br>(tudalennau 16-18 Adrannau 3.9-3.16) | Angen eglurder a phenodoldeb pellach ynghylch y rhyngweithio mewn perthynas ag argyfyngau sifil posibl ar draws ffiniau a lle mae cyfrifoldebau am weithwyr cadernid Cymru'n cael eu rhannu, yn aneglur neu'n gymhleth.<br>(Adrannau 1.4, 1.8, 2.2, 2.6, 2.12, 2.13, 2.14.) |
| 5. Sefydlu mecanweithiau newydd ar gyfer casglu, dadansoddi a rhannu data i lywio ymatebion i argyfyngau ac ymarferion pandemig<br>(tudalennau 96-101 Adrannau 4.68-4.86) | Mae LlC, mewn cydweithrediad ag endidau eraill y DU, yn mireinio ei galluoedd casglu a rhannu data yn ystod argyfyngau er mwyn sicrhau llif data amserol a diogel.<br>(tudalennau 19-23 Adrannau 3.17-3.31) | Angen mynd i'r afael â bylchau wrth rannu a chyfathrebu data a phrofiad ar draws sefydliadau a strwythurau cadernid.<br><br>Angen rhoi cyfrif gwell am sianeli cyfathrebu anffurfiol |

| Argymhelliad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 | Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru | Crynodeb o'r bylchau a'r materion a nodwyd o dystiolaeth y Pwyllgor |
|---|---|---|
| | | (Adrannau 1.5, 2.11.) |
| 6. Cynnal ymarfer ymateb i bandemig ledled y DU o leiaf bob tair blynedd.<br>(tudalennau 124-125 Adrannau 5.89-5.93) | Mae LlC yn cynllunio ar gyfer ymarfer pandemig ar lefel genedlaethol<br>Haen 1 y DU ar draws y system (Hydref 2025)<br>(tudalennau 24-25 Adrannau 4.1-4.6) | Pwysigrwydd sicrhau digon o gyllid neu adnoddau i weithredu ymarferion ymateb i argyfyngau ar lefel leol (e.e. Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Byrddau Iechyd)<br>(Adran 1.8, 1.9, 1.10, 2.15, 2.20) |
| 7. Cyhoeddi adroddiadau ar ymarferion argyfwng mewn modd tryloyw<br>(tudalennau 125-131 Adrannau 5.94-5.117) | Mae LlC yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar barodrwydd am argyfwng, gan roi manylion risgiau a nodwyd, strategaethau lliniaru a diweddariadau ar gynnydd.<br>(tudalennau 26-27 Adrannau 4.7-4.13) | Pwysigrwydd nodi ac adolygu adroddiadau parodrwydd am argyfwng penodol i Gymru (e.e. Cynllun Ymateb Cymru Gyfan, adroddiadau Pwyllgor y Senedd) i helpu i lywio risg a pharodrwydd system gyfan yng Nghymru yn y dyfodol.<br>(Adrannau 1.6, 1.7, 2.3, 2.4, 2.17, 2.19) |
| 8. Cyhoeddi adroddiadau ar argyfyngau sifil posibl system gyfan parodrwydd a gwytnwch<br>(tudalennau 131-132 Adrannau 5.118-5.121) | Mae LlC yn ystyried sefydlu corff statudol annibynnol i ddarparu cyngor strategol ac asesu parodrwydd, gan sicrhau gwerthusiad gwrthrychol o alluoedd gwytnwch Cymru. | Pwysigrwydd gweithredu dysgu o waith cymunedau lleol i ymateb system gyfan sy'n ymgorffori cyd-destun Cymru.<br>(Adrannau 1.8, 1.9, 1.10, 2.15, 2.20) |

| Argymhelliad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 | Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru | Crynodeb o'r bylchau a'r materion a nodwyd o dystiolaeth y Pwyllgor |
|---|---|---|
| | (tudalennau 28-29 Adrannau 4.14-4.18) | |
| 9. Defnydd rheolaidd o dimau coch<br>(tudalennau 149-151 Adrannau 6.60-6.66) | Mae LlC yn bwriadu defnyddio 'timau coch' allanol i asesu'n feirniadol a herio ei chynlluniau argyfwng a chadernid<br>(tudalen 30 Adrannau 4.19-4.22) | Angen mwy o eglurder ar gylch gwaith ac adnoddau'r 'timau coch'.<br>Angen sicrhau annibyniaeth asesiadau beirniadol a chynnwys ffyrdd gwahanol o feddwl er mwyn osgoi 'meddwl grŵp'<br>(Adrannau .2, 1.7, 2.5, 2.7, 2.8, 2.9.) |
| 10. Corff statudol y DU gyfan ar gyfer gwytnwch system gyfan<br>(tudalennau 158-161 Adrannau 6.93-6.104) | Mae LlC yn ymrwymo i weithio gyda'r<br>llywodraethau datganoledig i gyd-ddylunio corff statudol annibynnol newydd ar gyfer gwytnwch system gyfan<br>(tudalennau 31-32 Adrannau 4.23-4.25) | Ystyried ymateb 'cymdeithas gyfan' yng nghyd-destun Cymru sy'n gweithredu dysgu o'r gwaith gyda chymunedau a gweithwyr gwytnwch proffesiynol, a sicrhau adnoddau digonol.<br>(Adrannau 2.13, 2.18) |

Nodiadau: Ar gyfer adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid 19 y DU, darperir cyfeirnodau tudalennau a'r rhifau adran/paragraff mwyaf perthnasol ar gyfer pob argymhelliad. Ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru, darperir cyfeirnodau tudalennau a'r adrannau/paragraffau mwyaf perthnasol. Ar gyfer y crynodeb o'r bylchau a materion, dyfynnir adrannau/paragraffau perthnasol yn y Dadansoddiad o'r Bylchau.

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| 01 | Unigolyn (Saesneg yn unig) |
| 02 | Unigolyn (Saesneg yn unig) |
| 03 | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 04 | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| 05 | Cyngor Cymuned De Maelor (Saesneg yn unig) |
| 06 | Cyngor Dinas Casnewydd (Saesneg yn unig) |
| 07 | Iechyd Cyhoeddus Cymru (Saesneg yn unig) |
| 08 | Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig) |
| 09 | Grŵp Arsylwi'r Pwyllgor Covid (Saesneg yn unig) |
| 10 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig) |
| 11 | Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Saesneg yn unig) |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Anina Henggeler, Ymgeisydd Doethurol, Adran Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Pholisi Cyhoeddus, Coleg Prifysgol Llundain (Saesneg yn unig) | Chwefror 2025 |
| Llythyr gan y Cyd-Gadeiryddion at Gadeirydd Ymchwiliad Covid-19 y DU<br>Ymateb gan Ymchwiliad Covid-19 y DU(Saesneg yn unig) | Ionawr 2025<br>Chwefror 2025 |
| Llythyr gan y Cyd-gadeiryddion at y Prif Weinidog<br>Ymateb gan y Prif Weinidog | Ionawr 2025<br>Mawrth 2025 |